# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Bodawen**

**Cartref Nyrsio Bodawen**
**Porthmadog**
**LL49 9PR**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Nyrsio Bodawen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cariad Care Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Medi 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth maent yn eu cael yng nghartref Bodawen. Mae'r staff gofal yn wybodus, yn dangos parch, ac yn ofalgar, ac maent yn diwallu anghenion gofal y bobl mewn modd urddasol. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau un i un neu weithgareddau grŵp. Gall ymwelwyr ddod i weld y bobl a gall y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu diwrnod.

Mae proses recriwtio ar waith gan gynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Caiff y staff hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn fedrus. Mae datblygiad y staff mewn perthynas â sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn parhau. Cynhelir cyfarfodydd staff a throsglwyddo i rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r adeilad ar ei dir helaeth ei hun â golygfeydd panoramig. Gwneir ymdrech i sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau a mesurau iechyd a diogelwch ar waith.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros y rhan fwyaf o agweddau ar eu bywyd o ddydd i ddydd. Caiff y bobl a/neu eu perthnasau eu cynnwys mewn penderfyniadau a all effeithio arnynt. Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau â'r bobl drwy dreulio amser effeithiol gyda nhw'n unigol. Dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *“I like working with people – chatting to people about their life experiences.”*

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd corfforol y bobl. Gwneir atgyfeiriadau at amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn cefnogi'r bobl mewn modd amserol.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac yn cael cyfleoedd i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eiddo'r bobl ac mae ardaloedd cymunedol i'r bobl eistedd ynddynt er mwyn sgwrsio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae cydlynydd gweithgareddau yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau grŵp neu weithgareddau unigol yn ddibynnol ar ddewisiadau a galluoedd y bobl. Dywedodd y bobl a'r ymwelwyr bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnig, gan gynnwys dathlu Eurovision a Choroni'r Brenin. Caiff y Cymun ei drefnu'n aml.

Mae'r llety yn cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae gan y darparwr raglen cynnal a chadw barhaus; caiff addasiadau eu darparu i wella annibyniaeth. Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolion.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth pan fydd ei hangen arnynt. Mae aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac mae polisi drws agored ar waith. Mae dulliau cyfathrebu da ar waith â'r bobl, y staff a pherthnasau. Mae'r rheolwr yn gefnogol, ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Rhoddir anrhegion a chardiau diolch i'r staff gan deuluoedd a ffrindiau. Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael am y gwasanaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Mae nodiadau a siartiau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn derbyn cymorth da gan staff cyfeillgar, parchus a gofalgar. Caiff cydlynydd gweithgareddau ei gyflogi ac mae'n trefnu gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol yn ddibynnol alluoedd a diddordebau'r bobl. Clywsom y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg, gan ddibynnu ar ddymuniadau'r unigolyn. Dywedodd y bobl sy'n derbyn cymorth wrthym *"I've settled down well, everyone is kind, and the food is very nice."* dywedodd person arall *"The food is good, I have a nice bedroom and staff are kind and friendly, although some better than others. I'll talk to the manager if I'm concerned about anything."*

Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl diolch i'r gofal a ddarperir, atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol, a threfniadau effeithiol ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Mae system rheoli meddyginiaeth electronig newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn hyrwyddo ffordd ddiogel o weinyddu meddyginiaeth. Mae anghenion deietegol y bobl yn cael eu hystyried, ac mae prydau iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn aros yn iach. Gwelsom fod lluniaeth poeth ac oer a dewis o fisgedi neu ffrwythau ffres ar gael yn hwylus. Cafodd y prif bryd amser cinio ei goginio'n ffres gan ddefnyddio cynnyrch lleol.

Caiff diogelwch y bobl ei gynnal yn dda. Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at yr awdurdod lleol pe bai unrhyw bryderon ganddynt am y bobl y maent yn eu cefnogi. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gartrefol ac yn gynnes. Mae'r ardaloedd wedi'u haddurno i safon dda ac mae eitemau cofiadwy personol yn yr ystafelloedd unigol. Mae pob rhan yn hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd, ac mae dau lifft y gellir eu defnyddio i gyrraedd yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi ar y llawr cyntaf. Mae gan sawl ystafell wely declynau codi ar drac i wella annibyniaeth ymhellach. Caiff clychau galw eu defnyddio yn y cartref o fewn cyrraedd hawdd i'r bobl gael cymorth os oes angen. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon â'r amgylchedd, gan gynnwys eu hystafelloedd gwely, ardaloedd cymunedol, a'r ardaloedd eistedd yn yr awyr agored. Caiff ceisiadau'r bobl i ailddylunio dodrefn eu hystafelloedd gwely i gael mynediad haws at y cyfarpar eu rhoi ar waith gan y darparwr yn ddibynnol ar reoliadau iechyd a diogelwch.

Ar y cyfan, mae'r gwaith cynnal a chadw dyddiol o safon dda. Cadarnhaodd y rheolwr bod cyfleustodau, cyfarpar a chyfarpar diogelwch tân yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae person cynnal a chadw a gyflogir yn y gwasanaeth yn gyfrifol am y profion dyfeisiau cludadwy (PAT). Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng, sy'n benodol i'w hanghenion cymorth unigol.

Mae mesurau rheoli heintiau ar waith o hyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau. Mae gan bob ystafell wely doiled en-suite/cyfleusterau sinc ac mae gan rai ystafelloedd fath. Gofynnir i ymwelwyr â'r cartref ddilyn y canllawiau cyfredol mewn perthynas â rheoli heintiau.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth ac mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi'i leoli yn y gwasanaeth ac mae'n siarad â'r bobl, y perthnasau, y staff a'r gweithwyr proffesiynol yn rheolaidd. Mae'r cofnodion cyfarfodydd staff yn dangos bod y tîm rheoli yn goruchwylio'r broses o redeg y gwasanaeth ac yn gweithredu i wella darpariaeth gyffredinol y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n cyflogi staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio. Mae proses dethol a fetio gan y darparwyr, gan gynnwys proses ar gyfer cael geirdaon. Mae'r staff yn cael cymorth i ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl ac i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Cynigir hyfforddiant mewn pynciau gorfodol, gan gynnwys cymorth cyntaf, symud a chodi a chario a diogelu. Dywedodd y staff eu bod yn mynychu hyfforddiant a'u bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r cofnodion yn dangos bod unigolion yn cael eu goruchwylio.

Mae gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben, sy'n disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Cafodd y gwelliannau yn y Datganiad o Ddiben eu trafod gyda'r Unigolyn Cyfrifol ac mae wedi cytuno i ddiweddaru'r ddogfen i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. Mae'r rota staff yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd bob amser.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/08/2023